Pecyn Dogfennau

e

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

**DYDD MAWRTH, 20 MEHEFIN 2023**

**AT: HOLL AELODAU'R PWYLLGOR TRWYDDEDU**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **PWYLLGOR TRWYDDEDU** A GYNHELIR YN **SIAMBR, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN, SA31 1JP AC O BELL** AM **10.00 YB, DYDD MAWRTH, 27 MEHEFIN, 2023** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA ATODEDIG.

*Wendy Walters*

**PRIF WEITHREDWR**

AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA


| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Janine Owen** |
| **Ffôn (Llinell Uniongyrchol):** | **01267 224030** |
| **E-bost:** | **JanineOwen@sirgar.gov.uk** |

Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

# PWYLLGOR TRWYDDEDU
## 14 AELOD

**Y GRŴP PLAID CYMRU – 8 AELOD**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Y Cynghorydd | Mansel Charles |
| 2. | Y Cynghorydd | Alex Evans |
| 3. | Y Cynghorydd | Tyssul Evans |
| 4. | Y Cynghorydd | Ken Howell |
| 5. | Y Cynghorydd | Hefin Jones |
| 6. | Y Cynghorydd | Jean Lewis |
| 7. | Y Cynghorydd | Dorian Phillips |
| 8. | Y Cynghorydd | Elwyn Williams |

**Y GRŴP LLAFUR – 4 AELOD**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Y Cynghorydd | Peter Cooper |
| 2. | Y Cynghorydd | Suzy Curry |
| 3. | Y Cynghorydd | Dot Jones |
| 4. | Y Cynghorydd | Kevin Madge |

**Y GRŴP ANNIBYNNOL – 2 AELOD**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Y Cynghorydd | Louvain Roberts |
| 2. | Lle Gwag | |

***DYLAI AELODAU FOD YN YMWYBODOL NA CHANIATEIR IDDYNT OFYN I AELODAU O FEWN EU GRWPIAU EU HUNAIN I'W CYNRYCHIOLI MEWN CYFARFODYDD O'R PWYLLGOR YMA***

# AGENDA


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.** | |
| **2.** | **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.** | |
| **3.** | **PENODI AELODAU AR GYFER YR IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU AM WEDDILL BLWYDDYN Y CYNGOR 2023-24** | 5 - 8 |
| **4.** | **PENODI CADEIRYDDION YR IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2023/24** | |
| **5.** | **LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD YR IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "A" A GYNHALIWYD AR 20FED EBRILL 2023** | 9 - 12 |
| **6.** | **LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD YR IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "B" A GYNHALIWYD AR:-** | |
| | **6 .1 13 EBRILL, 2023** | 13 - 16 |
| | **6 .2 8 MEHEFIN 2023** | 17 - 20 |
| **7.** | **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 4 EBRILL, 2023.** | 21 - 24 |
| **8.** | **TRWYDDED CERBYD HURIO PREIFAT** | 25 - 28 |
| **9.** | **GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD** | |


NI DDYLID CYHOEDDI’R ADRODDIAD SY’N YMWNEUD Â’R MATERION CANLYNOL GAN EU BOD YN CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y’I DIFFINIWYD YM MHARAGRAFF 12 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 FEL Y’I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007 GAN EI FOD YN CYNNWYS GWYBODAETH AM UNIGOLYN PENODOL.

OS BYDD Y PWYLLGOR AR ÔL CYNNAL PRAWF LLES Y CYHOEDD YN PENDERFYNU YN UNOL Â’R DDEDDF, I YSTYRIED Y MATER HYN YN BREIFAT, GORCHMYNNIR I’R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD YN YSTOD TRAFODAETH O’R FATH.


| | | |
|---|---|---|
| **10.** | **MR GEOFFREY KARIN DAVIES - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT** | 29 - 32 |
| **11.** | **MR LEE JENKINS - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT** | 33 - 36 |
| **12.** | **MR JONATHAN THOMAS JONES - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT** | 37 - 40 |
| **13.** | **MR CARWYN DAVIES - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT** | 41 - 44 |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# PWYLLGOR TRWYDDEDU
# 27 MEHEFIN 2023

## PENODI AELODAU I EISTEDD AR IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU 2023-24

**Argymhellion / Penderfyniadau Allweddol Sydd Eu Hangen:**

I ystyried a chytuno aelodau i eistedd ar y 2 is-bwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2023/24.

**Rhesymau:**

Er mwyn sicrhau y caiff swyddogaethau'r Cyngor o dan ddarpariaethau'r Deddf Trwyddedu 2003 eu gweithredu yn effeithiol, mae angen I'r Pwyllgor Trwyddedu cadarnhau aelodaeth y ddau Is-Bwyllgor Trwyddedu ar gyfer flwyddyn y Cyngor 2023/24.

| | |
|---|---|
| **Angen i'r Cabinet wneud penderfyniad** | **NA** |
| **Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad** | **NA** |

**Aelod y Cabinet sy'n Deiliad y Portfolio:** Cynghorydd A. Vaughan Owen

| | | |
|---|---|---|
| Y Gyfarwyddiaeth:<br>Prif Weithredwr | Swyddi: | |
| Enw Pennaeth y Gwasanaeth:<br>Linda Rees Jones | Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith | |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Gaynor Morgan | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd | Rhif Ffôn: 01267 224026<br>E-bost: GMorgan@sirgar.gov.uk |

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# EXECUTIVE SUMMARY
# LICENSING COMMITTEE
# 27TH JUNE 2023

## APPOINTMENT OF MEMBERS TO SIT ON LICENSING SUB-COMMITTEES 2023-24

The Committee considers the following proposed membership in respect of Licensing Sub-Committees A & B:-

**Sub-Committee "A"**

Councillor Suzy Curry
Councillor Mansel Charles
Councillor Alex Evans
Councillor Tyssul Evans
Councillor Ken Howell
Councillor Peter Cooper
Vacancy

**Sub-Committee "B"**

Councillor Hefin Jones
Councillor Jean Lewis
Councillor Dorian Phillips
Councillor Elwyn Williams
Councillor Dot Jones
Councillor Kevin Madge
Councillor Louvain Roberts

NOTE: Three members of the Sub-Committee will be drawn from those seven members on a rotational basis on any given day.

| DETAILED REPORT ATTACHED? | NO |
|---|---|

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# IMPLICATIONS

**I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :**

**Signed: Linda Rees-Jones Head of Administration & Law**

| Policy and Crime & Disorder | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Organisational Development | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

# CONSULTATIONS

**I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below**

**Signed: Linda Rees-Jones Head of Administration & Law**

**1.Local Member(s):**
**N/A**
**2.Community / Town Council:**
**N/A**
**3.Relevant Partners:**
**N/A**
**4.Staff Side Representatives and other Organisations:**
**N/A**

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**
**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THERE ARE NONE**

| Title of Document | File Ref No. | Locations that the papers are available for public inspection |
|---|---|---|

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU A

## DYDD IAU, 20 EBRILL 2023

**YN BRESENNOL (Yn y Siambr):** Y Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

**Y Cynghorydd (Yn y Siambr):**
P. Cooper

**Y Cynghorydd (Yn rhithwir):**
S.A. Curry

**Arsylwyr (Yn rhithwir):**
Y Cynghorydd A. Evans
Y Cynghorydd W.T. Evans

**Yn bresennol fel cynrychiolwyr Awdurdod Cyfrifol (Yn y Siambr):**
Y Rhingyll B. Ashton, Cynrychiolydd Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys;
Yr Arolygydd Dros Dro D. Fencott-Price, Cynrychiolydd Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys;

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
E. Jones, Arweinydd Trwyddedu
K. Smith, Swyddog Trwyddedu
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;
S. Daniel, Legal Student [as an observer];
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataid;

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):**
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aeolodau.
**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyddin, ac o bell: 2.00 yp – 3.10 yp**

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

**2. CAIS I DROSGLWYDDO TRWYDDED SAFLE AC AMRYWIO'R GORUCHWYLIWR SAFLE DYNODEDIG.STAMPS, 69 STRYD STEPNEY, LLANELLI SA15 1AA**

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wybodaeth i bawb a oedd yn bresennol am drefn y cyfarfod.

Rhoddwyd gwybod i'r Is-bwyllgor fod cais wedi ei dderbyn gan Aaron Lee Coelho am drosglwyddo trwydded safle ac amrywio'r goruchwyliwr safle dynodedig yn 'Stamps', 69 Stryd Stepney, Llanelli.

Nododd yr Is-bwyllgor fod y dogfennau canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad:

- Atodiad A – Copi o'r cais;
- Atodiad B – Sylwadau a gyflwynwyd gan Heddlu Dyfed-Powys.

Nododd yr Is-bwyllgor hefyd sylwadau pellach gan Heddlu Dyfed-Powys dyddiedig 18 Ebrill 2022, a oedd wedi'u dosbarthu i'r holl bartïon ac wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor ers dosbarthu'r agenda.

Cafodd yr Is-bwyllgor sylwadau ar lafar gan y Rhingyll Ben Ashton ar ran Heddlu Dyfed-Powys a gyfeiriodd at ei sylwadau ysgrifenedig. Cadarnhaodd y Rhingyll Ashton fod yr heddlu wedi gwrthwynebu'r cais fel y'i cyflwynwyd am y rhesymau oedd wedi'u nodi yn y sylwadau ysgrifenedig.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon oedd yn bresennol holi cynrychiolydd Awdurdod yr Heddlu ynghylch ei sylwadau.

Cafodd yr Is-bwyllgor sylwadau llafar gan Mr E. Smith, lesddaliwr y safle, a Mr. A.L. Coelho, yr ymgeisydd, a oedd yn cefnogi'r cais ac yn ymateb i sylwadau'r heddlu.

Rhoddwyd cyfle i bawb oedd yn bresennol holi Mr. Smith a Mr. Coelho ynghylch y sylwadau a wnaed.

Felly bu i'r Is-bwyllgor

**BENDERFYNU'N UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16, Atodlen 12 i'r Ddeddf Llywodraeth Leol.**

Ar ôl ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref:

**PENDERFYNODD YR IS-BWYLLGOR YN UNFRYDOL, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a roddwyd ger ei fron, y dylid gwrthod y cais.**

**RHESYMAU**

Wrth benderfynu ar y cais, yr oedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor:

1. Roedd gan Mr Coelho euogfarn droseddol yn 2015 am affráe.
2. Roedd gan Jordan Parry nifer o euogfarnau troseddol, gan gynnwys euogfarnau am droseddau'n ymwneud â chyffuriau a throseddau treisgar. Roedd rhai o'r euogfarnau hyn yn ymwneud â throseddau cyfundrefnol.
3. Roedd chwaer Mr Coelho ynghlwm wrth yr un troseddau yn ymwneud â chyffuriau â Mr Parry.
4. Roedd y safle wedi agor ar 31 Mawrth ac ers hynny roedd sawl achos o droseddau ac anrhefn wedi bod ar y safle.
5. Roedd y safle mewn ardal oedd wedi ei chlustnodi yn Natganiad Polisi Trwyddedu y Cyngor yn fan problemus o ran Troseddau ac Anhrefn.
6. Roedd Jordan Dale Parry yn ffrind i Mr Ethan Smith, y lesddaliwr.

Roedd yr Is-bwyllgor yn rhoi pwys ar farn yr heddlu.

Nododd yr Is-bwyllgor nad oedd pryderon ac ofnau ynghylch beth allai ddigwydd pe bai'r cais yn cael ei ganiatáu yn ystyriaethau perthnasol oni bai bod tystiolaeth go iawn i'w cefnogi. Ym marn yr Is-bwyllgor, roedd y digwyddiadau diweddar ar y

safle a'r euogfarnau troseddol a amlinellwyd yn gyfystyr â thystiolaeth go iawn a oedd yn cefnogi'r pryderon oedd gan yr heddlu am yr ymgeisydd a'i gymheiriaid.

Rhoddodd yr Is-bwyllgor sylw penodol i Bennod 4 (Paragraffau 4.69 i 4.71) a Phennod 8 (Paragraffau 8.99 i 8.102) o'r canllawiau statudol a nodi y dylid ond gwrthod y cais lle'r oedd amgylchiadau eithriadol a oedd yn awgrymu y byddai'r amcan atal troseddu yn cael ei danseilio.

Nododd yr Is-bwyllgor mai anaml roedd yr heddlu'n gwrthwynebu ceisiadau o'r fath a bod yr euogfarnau a amlinellwyd yn nhystiolaeth yr heddlu yn ddifrifol a niferus. Roedd cysylltiadau clir rhwng yr ymgeisydd a'r rhai oedd yn gysylltiedig â throseddau cyfundrefnol. Roedd hyn, ynghyd â'r digwyddiadau diweddar ar y safle, yn awgrymu i'r Is-bwyllgor fod amgylchiadau eithriadol yn bodoli yn yr achos hwn.

Felly roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon ei bod yn briodol gwrthod y ceisiadau hyn er mwyn hyrwyddo'r amcan atal troseddu a bennwyd yn Neddf Trwyddedu 2003, a bod hwn yn ymateb cymesur i'r materion a nodwyd.

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU B

## DYDD IAU, 13 EBRILL 2023

**PRESENNOL (Yn y Siambr):** Cynghorydd D.E. Williams (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**
D. Jones H. Jones

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
E. Jones, Arweinydd Trwyddedu
A. Rees, Swyddog Trwyddedu
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
S. Martin, Solicitor
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyddin, ac o bell: 9.30 yb - 12.00 yp**

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**2. CAIS AM DRWYDDED SAFLE GWERNLLWYN CARE HOME, HEOL LLANDEILO, CROSS HANDS, LLANELLI SA14 6RD**

Roedd cyfarfod yr Is-bwyllgor wedi cael toriad am 9:35am ac wedi ailymgynnull ar y safle am 10:00am yng Nghartref Gofal Gwernllwyn, Heol Llandeilo, Cross Hands, Llanelli, er mwyn gweld lleoliad yr eiddo ac eiddo'r gwrthwynebwyr mewn cysylltiad â'r cais a gyflwynwyd am drwydded safle. Cafodd yr Is-bwyllgor y cyfle i archwilio cyfleusterau mewnol ac allanol yr eiddo. Ar ôl i'r ymweliad â'r safle ddod i ben, ailymgynullodd yr Is-bwyllgor yn y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin ac yn rhithwir o bell am 11.15 a.m. i ystyried y cais.

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wybodaeth i bawb oedd yn bresennol am y weithdrefn ar gyfer y cyfarfod a drefnwyd i ystyried cais a gafodd ei ddiwygio gan William James am drwydded safle ar gyfer Cartref Gofal Gwernllwyn, Heol Llandeilo, Cross Hands, Llanelli fel a ganlyn:-

Cais i Ganiatáu:

| | | |
|---|---|---|
| Cyflenwi Alcohol/Oriau Agor | | Dydd Llun i Ddydd Sul 11.00 – 21:00 |

Nododd yr Is-bwyllgor fod y dogfennau canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad:-

Atodiad A – copi o'r cais gwreiddiol;
Atodiad B - sylwadau'r
Atodiad C - sylwadau Heddlu Dyfed-Powys;
Atodiad D - sylwadau gan bobl eraill.

Cyfeiriodd cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu at ei sylwadau, y manylwyd arnynt yn Atodiad B yr adroddiad.

Cyfeiriodd at y sylwadau a’r amodau trwydded posibl a gyflwynwyd gan Heddlu Dyfed-Powys (atodiad C), a dywedodd fod yr amodau hynny wedi cael eu derbyn gan yr ymgeisydd a'i fod yn cytuno â hwy fel y nodir ar y ddogfen amgaeedig a lofnodwyd. Roedd y derbyn yr amodau hynny hefyd wedi arwain at yr ymgeisydd yn diwygio'r oriau a geisiwyd ar gyfer gwerthu alcohol o ddydd Llun i ddydd Sul 11.00 - 21:00 fel y cyfeiriwyd ato'n gynharach.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu ynghylch y sylwadau a wnaed.

Cafwyd sylwadau gan dri gwrthwynebwr a ailbwysleisiodd y pwyntiau a godwyd yn eu sylwadau ysgrifenedig a welir yn Atodiad D a oedd yn cynnwys, er enghraifft, cynnydd mewn traffig, yr effaith ar breifatrwydd, sŵn ac amharu ar gwsg.
Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi'r gwrthwynebwyr ynghylch eu sylwadau.

Ymatebodd yr ymgeisydd i'r materion a godwyd.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi'r ymgeisydd ynghylch y sylwadau a wnaed.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gynnal sesiwn breifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol.**

Ar ôl ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a'r Swyddfa Gartref:-

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a oedd wedi ei rhoi gerbron yr Is-bwyllgor, fod y cais am drwydded safle ar gyfer Cartref Gofal Gwernllwyn yn cael ei ganiatáu, wedi'i ddiwygio, a hynny'n unol â'r amodau trwyddedu yr oedd yr ymgeisydd a'r awdurdodau cyfrifol wedi cytuno arnynt, a bod amod rhif 1 wedi'i ddiwygio fel a ganlyn:**

**“Bydd y gwerthiant alcohol o ddydd Llun i ddydd Sadwrn yn cael ei gyfyngu i breswylwyr y cartref gofal neu eu gwesteion”. [Felly ni fydd y cyfyngiad hwn yn berthnasol ar ddydd Sul.]**

## <u>RHESYMAU</u>

Wrth benderfynu ar y cais, yr oedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor; ;

1. Mae'r safle yn rhan o gartref gofal cofrestredig;
2. Mae'r safle yn agos at ardal breswyl;
3. Roedd y safle wedi'i drwyddedu yn y gorffennol, cyn iddo gael ei newid yn gartref gofal;
4. Ers y newid nid oes cwynion wedi bod am y safle;

5. Nid oedd dim un o'r awdurdodau cyfrifol wedi gwrthwynebu caniatáu trwydded
6. Roedd yr ymgeisydd wedi diwygio'r cais a derbyn yr amodau trwyddedu ychwanegol a gynigiwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu a'r Heddlu wedi eu cynnig;

Roedd yr Is-bwyllgor yn rhoi pwys ar farn yr awdurdodau cyfrifol.

Nododd yr Is-bwyllgor nad oedd pryderon ac ofnau am yr hyn a allai ddigwydd pe bai trwydded yn cael ei chaniatáu yn ystyriaethau perthnasol oni bai bod hyn yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth go iawn.

Nododd yr Is-Bwyllgor ymhellach ei fod yn ymwneud yn llwyr â'r ardal drwyddedig a'r gweithgareddau trwyddedig yn y safle. Nid oedd yr Is-Bwyllgor yn ymwneud ag ardaloedd eraill o'r safle na gweithgareddau na ellir eu trwyddedu.

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU B

## DYDD IAU, 8 MEHEFIN 2023

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D.E. Williams (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**
K. Madge

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**
B.A.L. Roberts

**Sylwedydd (Yn rhithwir):**
Y Cynghorydd M.J.A. Lewis

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
E. Jones, Arweinydd Trwyddedu
K. Smith, Swyddog Trwyddedu
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau

**Siambr - Neuadd Y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 - 10.37 yb**

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.**

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

**2. CAIS AM DRWYDDED SAFLE - BISTRO ON THE BAY, UNED 4, CANOLFAN PARRY THOMAS, PENTYWYN, SA33 4NZ.**

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wybodaeth i bawb oedd yn bresennol am y weithdrefn ar gyfer y cyfarfod a oedd wedi'i gynnal i ystyried cais gan Mr Robert Rea am drwydded safle ar gyfer Bistro ar y Bae, Uned 4 Canolfan Parry Thomas, Pentywyn fel a ganlyn:-

Cais i ganiatáu:-

Cyflenwi alcohol a cherddoriaeth fyw, dydd Llun i ddydd Sadwrn 11:00–23:00 a dydd Sul 11:00-22:30.

Oriau Agor - dydd Llun i ddydd Sadwrn 08:00–23:30 a dydd Sul 08:00-22:30.

Nododd yr Is-bwyllgor fod y dogfennau canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad:

- Atodiad A – Copi o'r cais;
- Atodiad B – sylwadau a gyflwynwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu, ynghyd â gwybodaeth bellach a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd, gan gynnwys cytuno ar yr holl amodau a nodwyd yn sylwadau'r Awdurdod Trwyddedu;
- Atodiad C - sylwadau a gyflwynwyd gan bobl eraill.

Yn ogystal â'r uchod, roedd y wybodaeth atodol ganlynol hefyd wedi cael ei dosbarthu i bob parti oedd yn bresennol yn y cyfarfod:-

- Copi o gynllun yn manylu ar y cyfleusterau toiledau sydd ar gael yng nghyffiniau Bistro ar y Bae, Uned 4 Canolfan Parry Thomas, Pentywyn.

Nodwyd nad oedd unrhyw sylwadau wedi cael eu cyflwyno gan yr Awdurdodau Cyfrifol eraill mewn perthynas â'r cais.

Cyfeiriodd cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu at ei sylwadau, fel y nodwyd yn Atodiad B yr adroddiad, a dywedodd nad oedd unrhyw erlyniadau na chamau gorfodi blaenorol wedi'u cymryd gan yr Awdurdod Trwyddedu a hefyd nad oedd unrhyw gwynion wedi dod i law mewn perthynas â'r safle dan sylw yn y cais.

Cyfeiriodd cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu at yr amodau awgrymedig a gynigiwyd mewn perthynas â threfniadau teledu cylch cyfyng, a'r ffaith bod yr ymgeisydd wedi cytuno arnynt. Dywedodd, os oedd yr Is-bwyllgor am ganiatáu'r cais, yr ystyriwyd ei bod yn briodol i'r amodau hynny fod ynghlwm wrth y drwydded.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi cynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu ynghylch y sylwadau a wnaed.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd y gwrthwynebydd yn bresennol yn y cyfarfod i annerch y Pwyllgor, ond bod ei sylwadau ysgrifenedig wedi'u cynnwys yn Atodiad C yr adroddiad.

Cafodd yr Is-bwyllgor sylwadau llafar gan Mrs Rea, cyd-lesddeiliad y safle, i gefnogi'r cais ac mewn ymateb i sylwadau'r Awdurdod Trwyddedu a'r materion a oedd wedi'u codi gan y gwrthwynebydd, fel y nodwyd yn Atodiad C yr adroddiad.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi'r ymgeisydd ynghylch y sylwadau a wnaed.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol.**

Ar ôl ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a'r Swyddfa Gartref:-

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth oedd wedi ei rhoi gerbron yr Is-bwyllgor, fod y cais am drwydded safle ar gyfer Bistro ar y Bae, Uned 4 Canolfan Parry Thomas, Pentywyn, yn cael ei ganiatáu, a hynny'n unol â'r amodau trwyddedu yr oedd yr ymgeisydd a'r Awdurdod Trwyddedu wedi cytuno arnynt. Hefyd, caniateir gwerthu alcohol dim ond yn ystod cyfnodau pan fydd cwsmeriaid yn gallu cael mynediad i'r toiled anabl yng Nghanolfan Parry Thomas a/neu'r toiledau eraill yn y ganolfan neu yn Caban**.

**RHESYMAU**

Wrth benderfynu ar y cais, yr oedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor;

1. Nid oedd dim un o'r Awdurdodau Cyfrifol wedi gwrthwynebu caniatáu'r drwydded mewn egwyddor.
2. Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi gofyn am osod amodau ychwanegol ar y drwydded ac mae'r ymgeisydd wedi cytuno ar yr amodau hynny.
3. Mae aelod o'r cyhoedd wedi gwrthwynebu'r cais ar sail darpariaeth annigonol o doiledau.
4. Mae'r ymgeisydd wedi rhoi rhagor o wybodaeth am fynediad i gyfleusterau toiledau ar y safle neu'n agos ato.
5. Nid oes tystiolaeth wedi'i chyflwyno o broblemau oedd wedi codi wrth weithredu'r drwydded flaenorol na Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro diweddar ynglŷn â'r toiledau oedd ar gael i gwsmeriaid.

Roedd yr Is-bwyllgor yn rhoi pwys ar farn yr Awdurdodau Cyfrifol a nododd nad oedd pryderon ac ofnau ynghylch beth allai ddigwydd pe bai'r drwydded yn cael ei chaniatáu yn ystyriaethau perthnasol oni bai bod tystiolaeth go iawn i'w cefnogi.

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon, ar yr amod bod cwsmeriaid yn gallu cael mynediad i gyfleusterau toiledau digonol, na fyddai caniatáu'r cais yn tanseilio'r amcanion trwyddedu.

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon, ar yr amod bod cwsmeriaid yn gallu cael mynediad i'r toiled anabl yng Nghanolfan Parry Thomas a/neu'r toiledau eraill yn y ganolfan neu yn Caban, bod y ddarpariaeth o doiledau yn ddigonol.

Fodd bynnag, byddai'r Is-bwyllgor yn pryderu pe bai'r mynediad hwnnw'n cael ei leihau neu ei gyfyngu mewn unrhyw ffordd.

Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn ei bod yn briodol ac yn gymesur gosod amod trwyddedu ychwanegol mai dim ond yn ystod cyfnodau pan fydd cwsmeriaid yn gallu cael mynediad i'r toiled anabl yng Nghanolfan Parry Thomas a/neu'r toiledau eraill yn y ganolfan neu Caban y caniateir gwerthu alcohol.

Galwodd yr Is-bwyllgor ar y Cyngor i ymestyn oriau agor y toiledau yng Nghanolfan Parry Thomas i gyd-fynd ag oriau busnes y ganolfan.

**CHAIR** **DATE**

# PWYLLGOR TRWYDDEDU

## DYDD MAWRTH, 4 EBRILL 2023

**PRESENNOL** Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

| | | |
|---|---|---|
| P. Cooper | H. Jones | B.D.J. Phillips |

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

| | | | |
|---|---|---|---|
| S.A. Curry | A. Evans | W.T. Evans | J.K. Howell |
| D. Jones | M.J.A. Lewis | K. Madge | D.E. Williams |

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
S. Martin, Solicitor
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
A. Eynon, Prif Gyfieithydd;
S. Hendy, Swyddog Cefnogi Aelodau

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
J. Power, Uwch Swyddog Trwyddedu
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd,
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aelodau

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP 10.00 - 11.00 yb**

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd L. Roberts.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

### 3. COFNODION - 28AIN CHWEFROR, 2023

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2023 yn gofnod cywir.**

### 4. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**5. MR KENNETH JOHN JOSEPH DUXBERRY CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Kenneth John Joseph Duxberry o 18 Cwrt y Gloch, Peniel, Caerfyrddin am adnewyddu ei drwydded yrru ddeuol ar gyfer cerbyd hacni/hurio preifat.

Dywedodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu nad oedd Mr Duxberry yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod ond ei fod wedi gofyn i'r Pwyllgor ystyried ei achos yn ei absenoldeb.

Hysbyswyd y Pwyllgor o'r materion oedd wedi codi mewn perthynas â thrwydded Mr Duxberry.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Duxberry yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu cais Mr Kenneth John Joseph Duxberry am adnewyddu Trwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

Rheswm
Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

**6. MR PETER CYRIL PEARCE CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Peter Cyril Pearce o 43 Orchard Park, Talacharn am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio Preifat.

Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wybod i'r Pwyllgor am y materion a oedd wedi codi mewn perthynas â'r cais.

Yna gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau i Mr Pearce ynghylch y cais a'r materion a godwyd gan yr Uwch Swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Pearce yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny

**PENDERFYNODD y Pwyllgor YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD caniatáu cais Mr Peter Cyril Pearce am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacni/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

Rheswm
Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

## 7. MR JAMIE STEPHEN SMITH CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Nododd y Pwyllgor fod yr eitem hon wedi ei thynnu oddi ar yr agenda.

## 8. MR STEVE ANTONY WILLIAMS DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr Steve Antony Williams o 110 Stryd Fawr, Rhydaman yn meddu ar drwydded yrru ddeuol ar gyfer cerbyd hacni/hurio preifat gyda'r Awdurdod hwn.

Rhoddodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu wybod i aelodau'r Pwyllgor am y materion a oedd wedi codi mewn perthynas â'i drwydded.

Yna gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau i Mr Williams ynghylch y cais a'r materion a godwyd gan yr Uwch Swyddog Trwyddedu.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod Mr Williams yn cael rhybudd terfynol ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny:

**PENDERFYNODD Y PWYLLGOR YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, roi rhybudd terfynol i Mr Steve Antony Williams ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

Rheswm

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon bod y gyrrwr yn parhau i fod yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

**CHAIR** **DATE**

# PWYLLGOR TRWYDDEDU
# 27 MEHEFIN 2023

## DRWYDDED CERBYD HURIO PREIFAT

### ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

**Bod y cais yn cael ei ganiatáu.**

### RHESYMAU:

Amodau Trwyddedu y Cyngor.

| | |
|---|---|
| **Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad** | **Amherthnasol** |
| **Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad** | **Amherthnasol** |

**Aelod y Bwrdd Gweithredol sy'n Deiliad y Portfolio: Cynghorydd A.V. Owen**

| **Y Gyfarwyddiaeth:**<br>**Cymunedau** | **Swydd:** | **Rhifau Ffôn:**<br>**Cyfeiriadau E-bost:** |
|---|---|---|
| **Enw Pennaeth y Gwasanaeth**<br>**Mr Jonathan Morgan** | **Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel** | **01554 899285**<br>**jmorgan@sirgar.gov.uk** |
| **Awdur yr Adroddiad**<br>**Justin Power** | **Uwch-swyddog Trwyddedu** | **01267 228932**<br>**JHPower@sirgar.gov.uk** |

# EXECUTIVE SUMMARY

# LICENSING COMMITTEE
# 27 JUNE 2023

| PRIVATE HIRE VEHICLE LICENCE | |
|---|---|
| To consider an application from Mr Geoffrey Karin Davies of Airport Flyer, 37a New Road, Dafen, Llanelli, to be granted an exemption from Condition 5a and 5b of the Council's Licence Conditions for his Private Hire Vehicles PH 546 a Kia Optima registration number CP18 UTF, Private Hire PH 567 a Ford Tourneo registration number SA72 GPF and Private Hire PH 509 a Renault Traffic registration number CU18 HXB<br><br>Mr Davies has requested that as he intends to operate these vehicles for Executive Hire, Airport/Sea Port work only, that he be granted an exemption from Condition 5a and 5b of the Council's Licence Conditions, namely that he be not required to display door stickers and a licence plate on the rear bumper of his Vehicle.<br><br>Should the Licensing Committee agree to grant Mr Davies an exemption from condition 5a and 5b of the Council's Licence Conditions for Private Hire vehicles, then the following Licence Conditions be attached to the Licence:-<br><br>That Private Hire PH 546 a Kia Optima registration number CP18 UTF, Private Hire PH 567 a Ford Tourneo registration number SA72 GPF and Private Hire PH 509 a Renault Traffic registration number CU18 HXB be exempt from licence conditions 5a and 5b, whilst being used for Executive Hire purposes as outlined in the application by Mr Davies.<br><br>That should the vehicle be used for Private Hire other than Executive Hire type work listed, then the applicant shall immediately notify the Licensing Authority and the exemption shall cease in relation to such hiring.<br><br>That the vehicle displays an identification disc on the front and rear windscreens, as specified by the Licensing Authority. | |
| **DETAILED REPORT ATTACHED ?** | **NO** |

# IMPLICATIONS

| |
|---|
| **I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :**<br><br>**Signed: Mr Jonathan Morgan** **Head of Homes and Safer Communities** |

| Policy and Crime & Disorder | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Organisational Development | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

# CONSULTATIONS

| |
|---|
| **I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below**<br><br>**Signed: Mr Jonathan Morgan** **Head of Homes and Safer Communities** |

| |
|---|
| **1.Local Member(s):**<br>**No local member involvement and therefore no consultation necessary.**<br>**2.Community / Town Council:**<br>**No Community / Town Council involvement and therefore no consultation necessary.**<br>**3.Relevant Partners:**<br>**No Police and Fire Authority involvement and therefore no consultation necessary.**<br>**4.Staff Side Representatives and other Organisations:**<br>**There are no other organisations involved and therefore no consultation necessary.** |

| | |
|---|---|
| **CABINET MEMBER PORTFOLIO HOLDER AWARE/CONSULTED** | YES |

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**
**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THESE ARE DETAILED BELOW**

| **Title of Document** | **File Ref No.** | **Locations that the papers are available for public inspection** |
|---|---|---|
| Request for Exemption. | PH 546<br>PH 509<br>PH 567 | Licensing Section, 3 Spilman Street, Carmarthen |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(au) 12 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd ga
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(au) 12 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd ga
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(au) 12 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd ga
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Yn rhinwedd paragraff(au) 12 o Ran 4 o Atodlen 12A o ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd ga
Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007

Document is Restricted

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol